Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Grantiau Bach Gorchuddio Iardiau

# Sut i Hawlio

## Cynnwys

Ffurflen Hawlio Grant – Canllaw Sut i Lenwi ............................................................ 3
Cyfrif RPW Ar-lein ............................................................ 3
Gweld y Ffurflen Hawlio Grant ............................................................ 4
Dechrau'r Cais ............................................................ 4
Parhau â'r Cais/Dechrau Eto ............................................................ 5
Tudalen Cyflwyniad ............................................................ 6
Dewiswch Gontractau ............................................................ 6
Gweithgareddau sydd ar gael ichi hawlio arnyn nhw ............................................................ 7
Dogfennau Ategol – Tystiolaeth ar gyfer eich Cais ............................................................ 8
Cyflwyno'r Hawliad ............................................................ 9
Gwallau a Gwybodaeth ............................................................ 9
Datganiadau ac Ymrwymiadau ............................................................ 9
Cyflwyno ............................................................ 10
Manylion Cysylltu ............................................................ 10
Ymholiadau Cyffredinol – y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ............................................................ 10

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2026
WG54016 ISBN: 978-1-83745-015-2

# Ffurflen Hawlio Grant – Canllaw Sut i Lenwi


## Neges Bwysig

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut i lenwi Ffurflen Hawlio Grant a'r dystiolaeth ddogfennol sy'n ofynnol i gefnogi eich cais.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 (Ar agor o 8.30am tan 5.00pm Llun - Iau ac o 8.30am tan 4.30pm bob dydd Gwener).

# Cyfrif RPW Ar-lein

Gallwch gael gafael ar y Ffurflen Hawlio Grant drwy eich cyfrif RPW Ar-lein gan ddefnyddio Porth y Llywodraeth neu GOV.UK One Login.


Llywodraeth Cymru Welsh Government

RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

English

Rydyn ni'n newid y ffordd rydych yn mewngofnodi ar RPW Ar-lein

Mae manylion mewngofnodi RPW Ar-lein yn newid er mwyn defnyddio One Login GOV.UK. O fis Ionawr 2026, ni fyddwch yn gallu mewngofnodi ar RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth.

Bydd angen ichi barhau i ddefnyddio Porth y Llywodraeth os:

- nad ydych wedi mynd i'ch cyfrif (CRN) trwy One Login GOV.UK o'r blaen ac nad ydych wedi cael gwahoddiad i symud i One Login GOV.UK
- mae gennych wahoddiad i symud eich cyfrif (CRN) i One Login GOV.UK ond nid ydych yn dymuno gwneud hynny heddiw
- ydych yn weinyddwr Porth y Llywodraeth a'ch bod am symud eich CRN i One Login GOV.UK heddiw

Bydd gofyn ichi ddefnyddio One Login GOV.UK os:

- ydych wedi cael gwahoddiad i ymuno â busnes ar-lein
- ydych wedi defnyddio One Login GOV.UK i weld y CRN o'r blaen
- nad ydych wedi defnyddio RPW Ar-lein o'r blaen

**Dewiswch ffordd i fewngofnodi**

- Mewngofnodi trwy Borth y Llywodraeth
- Mewngofnodi neu gofrestru gan ddefnyddio One Login GOV.UK

Parhau

Beth yw One Login GOV.UK?

One Login GOV.UK fydd y ffordd newydd i chi fewngofnodi i holl wasanaethau'r llywodraeth ganol. Gydag One Login GOV.UK, byddwch yn gallu cael at yr holl wasanaethau rydych chi'n eu defnyddio, i gyd mewn un lle, gyda'r un cyfeiriad e-bost a chyfrinair.

Beth fydd yn newid i RPW Ar-lein?

Byddwch yn gallu defnyddio'ch cyfrif One Login GOV.UK i weld yr holl fusnesau rydych yn gweithredu ar eu rhan. Ar ôl cofrestru neu ymuno â busnes ar-lein, cliciwch ar y busnes rydych am ei weld wrth fewngofnodi.

Sut mae dechrau defnyddio One Login GOV.UK gydag RPW Ar-lein?

Yn gyntaf, cofrestrwch am gyfrif gyda One Login GOV.UK. Yna rhowch y cyfeiriad e-bost y gwnaethoch chi ei ddefnyddio i greu'ch cyfrif One Login GOV.UK i weinyddwr grŵp Porth y Llywodraeth eich cyfrif RPW Ar-lein.

Gweinyddwr y grŵp yw'r person sy'n ychwanegu aelodau at dîm ar Borth y Llywodraeth ac yn eu rheoli, hynny yw efallai prif gyswllt y busnes neu'r person sy'n rheoli'ch cyfrif RPW Ar-lein. Os mai chi yw'r unig un sy'n gwybod eich ID ar Borth y Llywodraeth, chi fwy na thebyg yw'r gweinyddwr.

Gall gweinyddwr y grŵp wahodd ei hun i'r cyfrif RPW Ar-lein ac yna defnyddio One Login GOV.UK i fewngofnodi. Gall wahodd pobl eraill i ddefnyddio'r cyfrif hefyd, gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost ei gyfrif One Login GOV.UK.

Sut mae cysylltu i ofyn cwestiwn?


Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y newid i One Login GOV.UK, Cysylltwch â ni

Dogfennau Canllaw | Cysylltwch â ni | Datganiad Hawlfraint | Datganiad Hygyrchedd | Cwcis | Preifatrwydd

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu defnyddio'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.


# Gweld y Ffurflen Hawlio Grant

I weld y Ffurflen Hawlio Grant, cliciwch ar y ddolen ar gornel chwith isaf eich sgrin Hafan (gweler isod). Neu cliciwch ar y tab ‘Ffurflenni’ ar y bar dewis a chliciwch ar y ddolen Ffurflen Hawlio Grant yn y panel glas ar ochr dde’r sgrin.




# Dechrau’r Cais


Ar ôl pwyso’r botwm i ddechrau llenwi’ch Ffurflen Hawlio Grant, fe welwch y dudalen ganlynol. Gofalwch fod y manylion arni’n gywir ac os nad ydyn nhw, cywirwch nhw ar eich cyfrif RPW Arlein cyn mynd ymhellach. Os ydych yn barod i fynd yn eich blaen, cliciwch ar y botwm ‘Dechrau’.




Ar ôl clicio’r botwm Dechrau, fe welwch y dudalen Cyflwyniad i’r Ffurflen Hawlio Grant.


# Parhau â'r Cais/Dechrau Eto

Unwaith y byddwch wedi dechrau ar eich hawliad, byddwch yn gallu ei adael a dychwelyd ato eto. Os ydych yn mynd at hawliad yr ydych eisoes wedi ei ddechrau, yna bydd modd i chi Barhau (botwm dde ar waelod y sgrîn), neu Ddechrau Eto drwy glicio'r ddolen a welir ar y sgrinlun hwn:





Nodwch os gwelwch yn dda – os byddwch yn dewis Dechrau Eto, bydd hyn yn dadosod yr holl gwestiynau rydych wedi eu hateb ac yn dileu'r holl wybodaeth rydych wedi ei hychwanegu.

Os ydych yn siŵr eich bod eisiau Dechrau Eto, Cliciwch Ydw, neu os nad ydych am wneud, cliciwch Na, fel y dangosir ar y sgrîn hon:



# Tudalen Cyflwyniad


Mae'r dudalen hon yn rhoi negeseuon pwysig ichi am y Ffurflen Hawlio Grant. Gofalwch eich bod wedi'u darllen yn drylwyr cyn ichi ddechrau. Gallwch weld y Canllaw Sut i Lenwi Ffurflen Hawlio Grant ar wefan Llywodraeth Cymru (bydd hyn yn agor tab newydd ar eich Porwr Rhyngrwyd) drwy glicio ar y ddolen 'Sut i Lenwi'.





# Dewiswch Gontractau

Dim ond os oes gennych fwy nag un contract y gallwch hawlio drwyddynt y byddwch yn gweld y dudalen hon. Gallan nhw fod yn gontractau ar wahân ar gyfer yr un cynllun neu gontractau ar gyfer cynlluniau gwahanol. Dewiswch pa gontract(au) yr hoffech hawlio drwyddynt drwy glicio ar y blwch perthnasol.

Er enghraifft, mae dau gontract ar y Ffurflen Hawlio Grant isod y gallwch hawlio drwyddynt:



Wedi ichi ddewis contract i'w hawlio, bydd y cynllun i’w weld ar ochr chwith y dudalen. Os byddwch wedi dewis mwy nag un contract, bydd pob cynllun y byddwch wedi'i ddewis yn ymddangos yma.




## Gweithgareddau sydd ar gael ichi hawlio arnyn nhw

Mae’r sgrin hon yn dangos y gweithgareddau sydd ar gael ichi Hawlio Grant arnyn nhw ar hyn o bryd.  Bydd y sgrin yn dangos y contract rydych yn hawlio taliad trwyddo.

Ar dop y dudalen, mae yna flwch Help glas sy'n esbonio beth i'w wneud i hawlio'ch taliad.

Ar gyfer rhai Ffurflenni Hawlio Grant, bydd blwch glas arall yn ymddangos o dan y blwch Help fydd yn rhoi rhagor o fanylion y cynllun penodol rydych wedi dewis hawlio'i daliad.

Rhaid i’r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar y sgrin hon fod yn gywir. Ticiwch y blwch sydd yn ymyl y gweithgaredd yr hoffech hawlio amdano. Nodwch y swm rydych yn ei hawlio, a'r dyddiad y cwblhawyd y gweithgaredd.




Sylwer mai dim ond unwaith y cewch chi hawlio am weithgaredd, h.y. chewch chi ddim hawlio am ran o weithgaredd yn awr, yna cyflwyno hawliad arall yn ddiweddarach am weddill y gwaith.

Dim ond pan fydd yr holl waith o dan y gweithgaredd hwnnw wedi'i gwblhau y cewch chi hawlio am weithgaredd.

Mae’n rhaid ichi hefyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi eich cais fel a ddisgrifir yn yr Adran ganlynol – Dogfennau Ategol – Tystiolaeth ar gyfer eich Cais

Os bydd y manylion y byddwch yn eu rhoi yn anghywir, fe welwch neges yn dangos eich bod wedi gwneud camgymeriad ac ni fyddwch yn cael cyflwyno'ch hawliad tan ichi gywiro'r holl gamgymeriadau.

## Dogfennau Ategol – Tystiolaeth ar gyfer eich Cais

**Rhaid ichi gyflwyno'r canlynol gyda'ch hawliad:**

- Anfonebau ar gyfer yr holl eitemau rydych yn hawlio amdanynt, gan nodi'n glir arwynebedd y to wedi'i adeiladu.
- Ffotograffau â geotag o'r ardal y rhoddwyd to drosti a'r eitemau ategol ar ôl i'r buddsoddiad gael ei gwblhau.
- Nid oes angen dogfennau cymeradwyo cynllunio na thystiolaeth o ganiatâd cynllunio.
- Cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo SDCau os yw hynny'n berthnasol.

Ffotograff â geotag sy'n cynnwys gwybodaeth am y lleoliad o fewn data'r ffotograff. Bydd y rhan fwyaf o ffonau symudol â chysylltiad â'r rhyngrwyd yn cofnodi'r cyfesurynnau GPS yn awtomatig. Maent hefyd yn cofnodi'r dyddiad a'r amser y tynnwyd y ffotograff. Bydd canllawiau manwl ar y ffotograffau â geotag sydd eu hangen a sut i'w cyflwyno ar gael ar y wefan yn ystod y cam hawlio.

Rhaid cyflwyno ffotograffau â geotag gyda'r dogfennau ategol i ddangos y canlynol:

- Y to newydd.
- Lleoliad yr ardal mewn perthynas â strwythurau parhaol cyfagos.
- Yr allfa a'r llif ar gyfer dŵr glaw wedi'i ddargyfeirio.
- Yr allfa / dull o gasglu slyri / dŵr brwnt o'r ardal wedi'i gorchuddio a'r llwybr at y tanc storio/storfa.
- Lleoliad y storfa slyri/pwll derbyn.
- Gosod eitemau ategol – ac eithrio pecynnau dadansoddi slyri.
- Os ydych yn hawlio am eitemau ategol sydd mewn mwy nag un lleoliad, bydd angen ichi gyflwyno ffotograffau sy'n dangos pob lleoliad.

Ar gyfer prif eitemau (toeau) bydd angen o leiaf pedwar ffotograff i ddangos y to newydd, wedi'u tynnu o gyfeiriadau gwahanol. Lle mae'r lleoliad yn caniatáu hynny, mae angen ffotograff o gyfeiriad y gogledd, y de, y dwyrain a'r gorllewin.


Gallwch gyflwyno’r anfonebau drwy eu sganio a’u hanfon drwy 'Fy negeseuon' yn eich cyfrif RPW Ar-lein.

# Cyflwyno'r Hawliad

## Gwallau a Gwybodaeth

Mae'r adran hon yn rhestru'r Negeseuon 'Gwallau a 'Gwybodaeth' ar eich Ffurflen Hawlio Grant. **Rhaid** cywiro unrhyw wallau cyn cyflwyno'ch Ffurflen Hawlio Grant.


Diben y negeseuon Gwybodaeth yw'ch atgoffa am unrhyw gamau y gallai fod gofyn ichi eu cymryd, ond nid ydynt yn eich rhwystro rhag cyflwyno'ch cais.




I weld negeseuon Gwallau a Gwybodaeth ar gyfer adran benodol, cliciwch ar enw'r adran ar ochr chwith y sgrin neu cliciwch ar ddolen Enw'r Adran yn y blwch Gwallau a Gwybodaeth.

Ar ôl ichi gywiro'r gwallau, rydych nawr yn barod i gyflwyno'ch Ffurflen Hawlio Grant. Bydd y sgrîn cyflwyno yn rhestru'r holl weithgareddau rydych wedi dewis hawlio amdanynt a bydd hefyd yn dangos gwerth yr hawliad.

# Datganiadau ac Ymrwymiadau




Rhaid darllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau i wneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â nhw. Sgroliwch i lawr y dudalen i ddarllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau i gyd. Pan fyddwch yn fodlon eich bod wedi'u darllen a'u deall ac wedi cydymffurfio â nhw, ticiwch y blwch ar y gwaelod i fynd yn eich blaen.

Os na fyddwch wedi ticio'r blwch i gadarnhau'ch bod wedi darllen a deall y Datganiadau ac Ymrwymiadau ac wedi cymdymffurfio â nhw, fe welwch neges camgymeriad ac ni fyddwch yn cael cyflwyno'ch hawliad tan ichi dicio'r blwch.


Bydd angen ichi dicio mwy nag un blwch wrth hawlio rai grantiau. Gofalwch fod yr holl flychau wedi'u ticio.

Cliciwch y botwm **Nesaf** os ydych am fynd yn eich blaen.

## Cyflwyno

Mae'ch Hawliad Grant yn awr yn barod i'w gyflwyno. Os ydych yn barod i'w gyflwyno, pwyswch y botwm cyflwyno.

Gofalwch eich bod yn anfon eich Ffurflen Hawlio Grant erbyn y dyddiad cau sydd yn y contract. Os na fyddwch wedi'i anfon erbyn y dyddiad cau, chewch chi ddim mo'ch talu.




Ar ôl cyflwyno'r hawliad, **rhaid** cyflwyno'r holl ddogfennau ategol cymwys. Os na fyddwch wedi cyflwyno'r dogfennau ategol erbyn y dyddiad cau, chewch chi ddim mo'ch talu.

## Manylion Cysylltu

### Ymholiadau Cyffredinol – y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer eich holl ymholiadau, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.
Gallwch ofyn cwestiwn unrhyw bryd ar RPW Ar - lein unrhyw bryd.